Senedd Cymru
**Pwyllgor y Llywydd**

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor y Llywydd
2022-23

## Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Llywydd 2022-23

**1.** Mae paragraff 20B o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor y Llywydd ("y Pwyllgor") gyflwyno adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau.

## Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol

**2.** Cafodd y Pwyllgor un cyfarfod ffurfiol (7 Tachwedd 2022) yn ystod y flwyddyn ariannol 2022-23. Cyfarfu'r Pwyllgor yn anffurfiol hefyd â Phrif Weithredwr newydd y Comisiwn Etholiadol ("y Comisiwn") ym mis Medi 2022 yn ystod y cyfnod hwn.

**3.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2022 i graffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn ar gyfer 2023-24 ac i graffu ar gais y Comisiwn am gyllideb atodol ar gyfer 2022-23.

**4.** Nodwyd ystyriaeth y Pwyllgor o amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24 yn ei adroddiad 'Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023/24'.[1] a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022.

**5.** Cyflwynodd y Comisiwn gais am amcangyfrif ariannol atodol ym mis Tachwedd 2022, a oedd i'w gynnwys yn Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru a osodwyd ym mis Chwefror 2023. Roedd y cais am £122,000 ychwanegol (sy'n cyfateb i gynnydd o 8.6 y cant ar ei Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2022-23) i ateb pwysau sy'n ymwneud â dyfarniadau cyflog, costau ymgyrchu a'r cynlluniau peilot pleidleisio cynnar. Lluniwyd adroddiad ar wahân ar y cais am gyllideb

[1] https://senedd.cymru/media/tmshyin5/cr-ld15484-w.pdf

atodol ym mis Chwefror 2023 yn dilyn cyngor gan Weinidogion Cymru. Cytunwyd ar y cais hwn fel rhan o'r Ail Gyllideb Atodol ar 14 Mawrth 2023.

## Aelodaeth Pwyllgor y Llywydd

**6.** Cafwyd un newid i aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, wrth i Llyr Gruffydd AS gymryd lle Rhys ab Owen AS ym mis Tachwedd 2022.